



**Ymgynghoriad ar y Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG  
a'r Rheolau am Geisiadau am Gydabyddiaeth i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU /  
TAG.**

Dyddiad Cyhoeddi: **21 Ionawr 2019**

Camau sy'n Ofynnol: **Ymatebion erbyn 18 Mawrth 2019**

**Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y dogfennau rheoleiddio canlynol:

- Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG;
- Rheolau Am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG.

Mae'n debygol y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU a/neu TAG ar hyn o bryd, a'r gyrff dyfarnu hynny a allai fod am ddyfarnu cymwysterau TGAU a/neu TAG yn y dyfodol.

**Sut i ymateb** Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn <https://www.smartsurvey.co.uk/s/KG6GC/>

Dylid anfon ymatebion erbyn 18 Mawrth 2019 fan bellaf.

Os nad yw cwestiwn yn berthnasol neu os nad ydych yn siŵr sut i ymateb, anwybyddwch y cwestiwn hwnnw a symud ymlaen i'r un nesaf.

Bydd yr ymatebion a geir yn llywio fersiwn derfynol y Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG a'r Rheolau am Geisiadau am Gydnabyddiaeth i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG. Caiff adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**Rhagor o Wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Deddf Cymwysterau Cymru 2015 - <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh>  
Polisi Apeliadau Rheoliadol – <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-apeliadau-rheoliadol/>

**Manylion cyswllt** I gael rhagor o wybodaeth:  
E-bost: [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org)

## **Diogelu data**

### **Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a roddir gennych eu defnyddio**

Byddwn yn dadansoddi ac yn ystyried pob ymateb a gawn i'r ymgynghoriad hwn. Caiff adroddiad cryno o'r canfyddiadau ei gyhoeddi ar ein gwefan. Lle y bo'n briodol, bydd yr adroddiad hwn yn nodi tueddiadau mewn ymatebion ac yn cysylltu'r rhain â nodweddion ymatebwyr.

Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn, os ystyrir bod hyn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Gofynnir i ymatebwyr am eu caniatâd i gyhoeddi eu henwau neu enwau eu sefydliad, a'u trefi post gyferbyn â'u hymatebion. Os ydych yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw, nodwch hynny yn eich ymateb i'r ymgynghoriad drwy dicio'r blwch yn adran 'Gwybodaeth bersonol' eich ffurflen ymateb.

Caiff yr holl ddata a ddelir gennym eu cadw yn unol â Chyfraith Diogelu Data y DU. Dim ond at ddibenion datblygu ac adolygu'r polisiau yn yr ymgynghoriad hwn y cânt eu defnyddio.

Am ein bod yn gorff cyhoeddus, gellir ystyried yr holl ddeunydd ysgrifenedig a ddelir gennym, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a anfonwch atom, i'w ryddhau yn dilyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os nad ydych wedi rhoi caniatâd i'ch enw chi neu enw eich sefydliad a'ch tref bost gael eu cyhoeddi, ystyrir hyn wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion prin pan fydd yn rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth hon. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ceisio eich hysbysu am y penderfyniad hwn.

## **Cefndir**

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn rhoi dyletswydd ar Cymwysterau Cymru i lunio meini prawf cydnabyddiaeth cyffredinol y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu bodloni er mwyn cael eu cydnabod. Gwnaethom gyhoeddi [Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth](#) cyffredinol ym mis Medi 2015.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni lunio meini prawf cydnabod cymhwyster-benodol, y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu bodloni er mwyn gallu dyfarnu mathau penodol o gymwysterau, megis TGAU neu TAG.

Cymwysterau Cymru, Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) yw cyd-berchnogion y nod masnach cofrestredig ar gyfer 'Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd' a 'Thystysgrif Addysg Gyffredinol'.

Rydym bellach yn cynnig cyhoeddi '**Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG**'. Unwaith y bydd y meini prawf newydd hyn wedi'u cyhoeddi, bydd yn ofynnol i unrhyw gorff dyfarnu sydd am ddyfarnu cymwysterau TGAU neu TAG yng Nghymru fodloni'r meini prawf hyn er mwyn cael eu cydnabod gan Cymwysterau Cymru.

Bydd gofyn i bob corff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru gyflwyno cais yn unol â'n **Rheolau Am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG**. Ar gyfer y cyrff dyfarnu hynny sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ar hyn o bryd, bwriadwn ysgrifennu atynt yn amlinellu'r dyddiad cau y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau. Yn dilyn hynny, bwriadwn benderfynu a ydynt wedi bodloni'r meini prawf yn seiliedig ar dystiolaeth sydd eisoes ar gael.

Lle nad yw corff dyfarnu yn dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ar hyn o bryd, bydd angen dangos i ni y bydd yn gallu bodloni'r meini prawf gan ddefnyddio'r ffynonellau perthnasol o dystiolaeth (gweler enghreifftiau a ddarperir yn y Meini Prawf).

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar y meini prawf arfaethedig, a'r rheolau arfaethedig. Cyflwynir y meini prawf a'r rheolau hyn ynghyd â chyfres o gwestiynau. Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, os byddwn yn penderfynu cyhoeddi meini prawf a rheolau, efallai y byddwn yn diwygio'r rhain cyn cyhoeddi.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

<b>1. A oes unrhyw agweddau ar ein meini prawf neu reolau arfaethedig sydd angen eu hegluro ymhellach?</b>
<b><input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes</b>
Os mai 'Oes' yw eich ateb, nodwch pa agweddau sydd angen eu hegluro ymhellach.  Nodwch pa un o'n dogfennau – meini prawf, rheolau neu'r ddwy – rydych yn cyfeirio ati/atynt.

<b>2. A oes gennych unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r meini prawf rydym wedi'u gosod ar gyfer cydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG?</b>
<b><input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes</b>
Os mai 'Oes' yw eich ateb, esboniwch y rhesymau dros eich ymateb. Nodwch pa feini prawf y mae eich ymateb yn ymwneud â nhw a dylech gynnwys unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach.
Nodwch unrhyw feini prawf eraill y dylem eu hystyried:

**3. Pe byddech yn paratoi cais am gydnabyddiaeth TGAU/TAG, a fyddai'r enghreifftiau o dystiolaeth yr ydym wedi eu cyflwyno ynghyd â'r meini prawf o gymorth?**

Esboniwch y rhesymau dros eich ymateb. Nodwch pa feini prawf y mae eich ymateb yn ymwneud â nhw a dylech gynnwys unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach.

Nodwch unrhyw enghreifftiau eraill o dystiolaeth y dylem eu hystyried:

**4. A oes unrhyw agweddau ar y broses o wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG sydd angen eu hegluro ymhellach?**

Oes  Nac oes

Os mai 'Nac oes' yw eich ateb, nodwch pa agweddau sydd angen eu hegluro ymhellach:

**5. A fyddai i'r meini prawf a'r rheolau arfaethedig unrhyw oblygiadau (bwriadol neu anfwriadol) o ran y canlynol:**

	<b>Byddai:</b>	<b>Na fyddai:</b>
(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,	[ ]	[ ]
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	[ ]	[ ]
(c) unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a amlinellir yn <a href="#">Neddf Cydraddoldeb 2010</a> .	[ ]	[ ]
(d) cyllid cyrff dyfarnu	[ ]	[ ]
Os ydych wedi ateb 'Byddai' i unrhyw un o'r uchod, amlinellwch y canlyniadau posibl:		

**Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno i ni am y meini prawf neu'r rheolau hyn, defnyddiwch y blwch isod:**

--

## Gwybodaeth Ychwanegol

A ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn (Os nodwch eich bod yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn tybio bod gennych ganiatâd i'ch ymatebion gael eu hystyried yn sylwadau gan eich sefydliad).

Ar ran y sefydliad

Unigolyn

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio eich sefydliad orau (os yw'n gymwys):

Corff dyfarnu

Darparwr addysg neu hyfforddiant

Arall (nodwch)

.....

.....

.....

Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn, os ystyrir bod hyn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. (Gweler yr adran ar ddiogelu data yn y ddogfen ymgynghori). O dan yr amgylchiadau hyn, byddem yn cyhoeddi enw a thref bost yr ymatebwr. Os ydych yn fodlon i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, dewiswch 'ydw' isod. Os nad ydych, gadewch y cwestiwn hwn yn wag.

'Ydw, rwy'n hapus i gael fy enwi'

## Gwybodaeth gyswllt

Enw:.....

Enw'r sefydliad:.....

Cyfeiriad E-bost:.....





**Dogfen Reoleiddio**

# **Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys meini prawf y mae'n rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU neu TAG yng Nghymru eu bodloni.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## Egwyddorion cyffredinol

Er mwyn dyfarnu unrhyw gymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. I gael ei gydnabod, mae'n rhaid i gorff dyfarnu ddangos ei fod yn bodloni ein [Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth](#) yn gyffredinol.

Mae Adran 6 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn caniatáu i ni osod a chyhoeddi meini prawf ar gyfer cymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymhwyster.

Mae Adran 9 o Ddeddf Cymwysterau Cymru yn caniatáu i ni gydnabod corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau o'r fath, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion meini prawf cydnabod cymhwyster-benodol o'r fath.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Meini Prawf Cydnabod ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG.

Mae'n rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU/TAG ddangos ei fod yn bodloni'r meini prawf hyn, neu fod ganddo drefniadau digonol ar waith i ddangos i ni y bydd yn gallu bodloni'r meini prawf. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a yw'r corff dyfarnu wedi bodloni'r meini prawf, ac yna'n penderfynu p'un a fydd yn cydnabod y corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

Mae'r ffordd rydym yn cydnabod cyrff dyfarnu, gan gynnwys y rheini sydd am ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru, wedi'i nodi yn ein [Fframwaith a Dull Rheoleiddio](#).

## Pwy sy'n gallu gwneud cais

Gall unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru.

Os nad yw corff dyfarnu wedi'i gydnabod gan Cymwysterau Cymru eto, yna mae'n rhaid gwneud cais am gydnabyddiaeth gyffredinol yn gyntaf cyn cyflwyno cais i gael ei gydnabod i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

## Sut i wneud cais

I gael manylion pellach am sut i wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru, gweler ein **Rheolau Am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG**.

## **Nodiadau ar Feini Prawf**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys enghreifftiau o dystiolaeth y gall ymgeiswyr ei darparu. Bwriedir i'r rhain fod yn enghreifftiol ac i helpu cyrff dyfarnu i ddeall sut i fodloni'r meini prawf. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr ac nid ydynt yn ffurfio rhan o ofynion y meini prawf.

Caiff corff dyfarnu sy'n bodloni'r Meini Prawf hyn ei gydnabod i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru.

# Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG

## Cydnabod corff dyfarnu

### **Maen prawf 1**

Mae'r corff dyfarnu wedi'i gydnabod gan Cymwysterau Cymru ar adeg ei gais.

### **Maen prawf 2**

Gall y corff dyfarnu ddangos y bydd yn gallu cydymffurfio â'r [Amodau Cydnabod Safonol](#) yn barhaus mewn perthynas â datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymhwyster / cymwysterau TGAU / TAG\*.

\*Dylai'r corff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o'r ffordd mae'n bodloni ein Hamodau Cydnabod Safonol yng nghyd-destun cyflwyno cymhwyster / cymwysterau TGAU / TAG.

### **Maen prawf 3**

Gall y corff dyfarnu ddangos y bydd yn gallu cydymffurfio â'r [Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG](#).

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Dull gweithredu arfaethedig i sicrhau bod unrhyw gymwysterau TGAU / TAG yn cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol.
- Dull gweithredu arfaethedig i sicrhau bod unrhyw gymwysterau TGAU / TAG yn cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG.
- Dull o gydymffurfio sy'n adlewyrchu ein [gofynion rheoleiddio ychwanegol](#) mewn perthynas â datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

## **Argaeledd adnoddau a threfniadau digonol**

### ***Maen prawf 4***

Mae gan y corff dyfarnu y gallu i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymhwyster/cymwysterau TGAU am gyfnod o bum mlynedd o leiaf yn dilyn y dyfarniad cyntaf neu ddyddiad gorffen y cymhwyster/cymwysterau perthnasol (p'un bynnag yw'r hiraf).

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Y cyfrifon a gafodd eu harchwilio'n fwyaf diweddar ar gyfer endid cyfreithiol y corff dyfarnu: mae'n rhaid i'r datganiadau hyn gynnwys elw a cholled (neu incwm a gwariant), mantolen, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn a/neu lif arian.
- Sylwadau a gyhoeddwyd sy'n egluro'r polisïau ariannol a chyfrifyddu allweddol sy'n sail i'r datganiad.
- Y cynllun busnes diweddaraf ar gyfer endid cyfreithiol y corff dyfarnu yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd o leiaf sy'n amlinellu'r cynlluniau ar gyfer dyfarnu / petai'n dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru.
- Rhagolwg ariannol sy'n amlinellu dull arfaethedig o ddatblygu (lle y bo'n briodol), cyflwyno a dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ac sy'n rhoi sicrwydd ynglŷn â hyfywedd ariannol.
- Cynllun strwythur a gweithlu sefydliadol (neu gynlluniau arfaethedig) sy'n dangos adnoddau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad digonol ar gyfer datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

## **Pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig**

### ***Maen prawf 5***

Mae gan y corff dyfarnu y system, y prosesau a'r adnoddau ar waith i bennu lefelau cyrhaeddiad penodedig mewn perthynas â chymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Trefniadau a phrosesau arfaethedig ar gyfer pennu ffiniau graddau sy'n dangos dealltwriaeth o'n [Gofynion ar gyfer Pennu Lefelau Cyrhaeddiad Penodedig ar gyfer Cymwysterau TGAU a TAG](#), Amod Safonol H3 ac Amod Safonol Ychwanegol ASC.Q a'r gallu i gydymffurfio â nhw.
- Trefniadau arfaethedig i adlewyrchu ein [Lefelau Cymwysterau a Chydrannau](#) wrth gynllunio unrhyw gymwysterau TGAU / TAG.
- Trefniadau a phrosesau arfaethedig ar gyfer defnyddio graddfa marciau unffurf.
- Trefniadau a phrosesau arfaethedig ar gyfer defnyddio canlyniadau cymaradwy fel y prif ddull o gynnal safonau.
- Trefniadau a phrosesau arfaethedig ar gyfer sicrhau y gellir cymharu â chymwysterau tebyg a ddyfernir gan gyrff dyfarnu eraill.
- Tystiolaeth o sgiliau a phrofiad (gan gynnwys ystadegol) i bennu lefelau cyrhaeddiad penodedig yng nghyd-destun cymwysterau TGAU / TAG.

## **Asesiadau allanol**

### ***Maen prawf 6***

Gall y corff dyfarnu gynnal asesiadau allanol dilys a dibynadwy ar gyfer cymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Tystiolaeth o fod wedi dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig a aseswyd yn allanol yn flaenorol.
- Tystiolaeth o ddulliau o farcio a chymedroli, a deunydd asesu wedi'i farcio, sy'n cydymffurfio â'n [Hamodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG](#).
- Enghreifftiau o fanylebau ar gyfer cymwysterau perthnasol a aseswyd yn allanol.

## **Addasrwydd at y diben**

### ***Maen prawf 7***

Gall y corff dyfarnu ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG sy'n addas at y diben, yn unol ag Amod Cydnabod Safonol D1.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Dulliau arfaethedig ar gyfer sicrhau y bydd y cymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG yn Ddilys, yn Ddibynadwy, yn Gymaradwy, yn Hydrin ac yn Lleihau Tuedd hyd y gellir.
- Dulliau arfaethedig ar gyfer sicrhau y bydd y cymwysterau TGAU / TAG yn diwallu anghenion dysgwyr yn seiliedig ar dystiolaeth o ymgysylltu.

## **Cyfrinachedd deunyddiau asesu**

### ***Maen prawf 8***

Gall y corff dyfarnu gynnal cyfrinachedd deunyddiau asesu TGAU / TAG.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Cofnodion o wrthdaro buddiannau ar gyfer cymwysterau cyfredol a chofnodion o'r rhai sydd wedi cael mynediad at ddeunyddiau asesu cyfrinachol a thystiolaeth o'r ffordd y cafodd y rhain eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys templedi, polisiau a phrosesau i'w defnyddio.
- Cynlluniau rheoli risg a chynlluniau wrth gefn ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG arfaethedig.
- Enghreifftiau o gytundebau cyfrinachedd/diffyg datgelu.
- Enghreifftiau o ddiwyddiadau lle y defnyddiwyd dull rheoli digwyddiadau.
- Tystysgrifau diogelwch digidol priodol (e.e. Cyber Essentials Plus).

## **Hyfforddiant**

### ***Maen prawf 9***

Gall y corff dyfarnu ddarparu canllawiau a hyfforddiant priodol i bobl berthnasol mewn perthynas â chymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Dull arfaethedig o gydymffurfio â'r [Amodau Cydnabod Safonol](#) yn barhaus mewn perthynas â chymhwyster/cymwysterau TGAU a/neu TAG a'r [Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer TGAU / TAG](#).
- Deunyddiau hyfforddiant neu gynlluniau ar gyfer hyfforddiant i'w darparu e.e. i ganolfannau, athrawon ac aseswyr.

## **Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig**

### ***Maen prawf 10***

Mae gan y corff dyfarnu drefniadau clir ar gyfer gwneud Addasiad Rhesymol a rhoi Ystyriaeth Arbennig mewn perthynas â chymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG, yn unol â Chyfraith Cydraddoldeb.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Polisiâu Addasiadau Rhesymol/Ystyriaeth Arbennig sy'n adlewyrchu [Manylebau Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig](#).
- Tystiolaeth o unrhyw drefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd neu mae'n bwriadu eu rhoi ar waith.



## **Sicrhau bod cymwysterau TGAU / TAG ar gael**

### ***Maen prawf 11***

Gall y corff dyfarnu roi amserlen a dull gweithredu arfaethedig priodol ar gyfer y cyfnod y mae'n bwriadu sicrhau y bydd cymhwyster/cymwysterau TGAU / TAG ar gael. Dylai'r amserlen gynnwys dyddiadau dyfarnu a thystysgrifau sy'n debyg i gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau tebyg mewn manau eraill.

#### Enghreifftiau o dystiolaeth

- Amserlen ar gyfer y gyfres arholiadau sydd ar ddod sy'n dangos y cylch llawn gan gynnwys datblygu, cofrestru, asesu, marcio, cymedroli, apeliadau hyd at ddyfarnu a thystysgrifau, gan gyfeirio at ein [Hamodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG](#).

## Termau Diffiniedig

Yn y ddogfen hon, ac yn unol â'r ddarpariaeth a amlinellir yn Adran J yn ein Hamodau Cydnabod Safonol, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod:

<b>Dilysrwydd</b>	<p>Cymaint y mae'r asesiad yn profi'r pethau y bwriedir iddo eu hasesu. Mae'r defnydd (defnyddiau) a wneir o ddeiliant (deilliannau) asesiad yn ddilys os caiff ei ategu/os cânt eu hategu gan dystiolaeth a damcaniaeth. Er mwyn gwerthuso dibynadwyedd, rhaid datblygu dadl glir i ategu'r dehongliad arfaethedig o'r deilliannau a'r defnydd bwriadedig o'r asesiad. Dylai'r ddadl am ddilysrwydd fod yn seiliedig ar ddatganiadau o'r dehongliad arfaethedig a thystiolaeth ategol a gasglwyd yn ystod pob cam o'r broses asesu.</p>
<b>Dibynadwy</b>	<p>Mae dibynadwyedd yn ymwneud â chysondeb ac felly mae'n ymwneud â'r graddau y mae amrywiol gamau'r broses asesu yn arwain at ddeilliannau a gâi eu dyblygu ped ailadroddwyd yr asesiad. Mae dibynadwyedd yn un o amodau angenrheidiol dilysrwydd, gan nad yw'n bosibl dangos dilysrwydd proses asesu nad yw'n ddibynadwy. Mae amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar ddibynadwyedd asesiad, megis y broses o samplu tasgau asesu ac anghysondeb yng ngwaith marcio aseswyr dynol.</p>
<b>Cymaradwy</b>	<p>Cynhyrchu deilliannau asesu lle gellir cymharu safonau rhwng asesiadau o fewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda chyrrff dyfarnu eraill, a thros amser. Os oes ffurfiau cyfatebol ar asesiad mae'n bwysig sicrhau bod modd eu cymharu. Mae dau reswm dros hyn:</p> <p>(a) gwneud cymariaethau teg rhwng cyrhaeddiad dysgwyr: mae'n amhosibl llunio ffurfiau gwahanol sydd ag union yr un cynnwys a manylebau ystadegol (megis lefel anhawster neu'r hyn a ddisgwylir gan y dysgwr). Felly, mae gofyniad i sicrhau bod modd cymharu deilliannauyn sicrhau yr ystyrir lefel anhawster y prawf neu'r hyn y mae disgwyl i'r dysgwr ei gyflawni wrth bennu safonau fel y gellir cymharu'r dysgwyr sy'n gwneud y gwahanol ffurfiau ar asesiad yn deg.</p> <p>(b) er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r deilliannau i fesur safonau: rhaid sicrhau bod modd cymharu deilliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf os bwriedir eu defnyddio i fesur safonau dros amser. Gellir defnyddio barn arbenigwyr a</p>

	<p>gweithdrefnau ystadegol megis cymharu profion ('test equating') er mwyn sicrhau bod modd cymharu deiliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw asesiadau mor debyg i'w gilydd fel bod modd eu rhagweld, gan y byddai hyn yn bygwth eu dilysrwydd.</p>
<b>Hydrin</b>	<p>Mae hydrinedd yn ymwneud â dichonoldeb cynnal prosesau asesu penodol. Mae proses asesu hydrin yn broses sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd gwerthuso rhesymoldeb y gofynion yn seiliedig ar y graddau y caiff y cyfranogwyr eu hasesu, wedi'i gydbwysu gan ddefnyddioldeb y canlyniadau. Fel gyda'r gofynion eraill (dilysrwydd, dibynadwyedd, cymaradwyedd a lleihau tuedd hyd y gellir), mae'n rhaid cydbwysu dyfarniadau ynghylch hydrinedd ag ystyriaethau mewn perthynas â'r gofynion eraill.</p>
<b>Lleihau Tuedd Hyd y Gellir</b>	<p>Nod lleihau tuedd hyd y gellir yw sicrhau na fydd trefniadau asesu yn arwain at ddeilliannau afresymol o andwyol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin.</p> <p>Mae lleihau tuedd hyd y gellir yn ymwneud â sicrhau tegwch i bob dysgwr ac mae hefyd yn ymwneud i raddau helaeth â dyletswyddau cydraddoldeb statudol.</p>
<b>Addasiadau Rhesymol</b>	<p>Addasiadau a wneir i asesiad ar gyfer cymhwyster er mwyn galluogi dysgwr anabl i ddangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth i'r lefelau cyrhaeddiad sy'n ofynnol gan y fanyleb ar gyfer y cymhwyster hwnnw.</p>
<b>Ystyriaeth Arbennig</b>	<p>Ystyriaeth i'w rhoi i ddysgwr sydd wedi cael profiad dros dro o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) salwch neu anaf, neu</li> <li>(b) rhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth y dysgwr, sydd wedi cael effaith sylweddol ar allu'r dysgwr hwnnw i gwblhau asesiad neu ddangos ei lefel cyrhaeddiad mewn asesiad, neu sy'n eithaf tebygol o fod wedi cael effaith arnynt.</li> </ul>



---

Dogfen Reoleiddio

# Rheolau am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG

---

## **Egwyddorion Cyffredinol y Rheolau am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG.**

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at unrhyw gorff dyfarnu cydnabyddedig sy'n awyddus i wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG.

O dan adran 10 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i ni lunio rheolau ynghylch cyflwyno ceisiadau i ni mewn perthynas â chydabod corff dyfarnu.

Nod y rheolau hyn yw rhoi eglurder i ymgeisydd am y broses o wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG.

## **Cynnwys**

### **Cydnabyddiaeth**

### **Sut i wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG**

## Cydnabyddiaeth

Er mwyn cael cydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru yn gyntaf.

Mae ein proses o gydnabod corff dyfarnu ar gael [yma](#).

Mae'n rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ddangos ei fod yn bodloni'r meini prawf hyn, neu fod ganddo drefniadau digonol ar waith i ddangos i ni y bydd yn gallu bodloni'r meini prawf. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a yw'r corff dyfarnu wedi bodloni'r meini prawf, ac yna'n penderfynu p'un a fydd yn cydnabod y corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

## Sut i wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG

Os hoffech wneud ymholiad ynglŷn â chael cydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG, e-bostiwch [recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org](mailto:recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org).

Ar gyfer y cyrff dyfarnu hynny sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ar hyn o bryd, bwriadwn ysgrifennu atynt yn amlinellu'r dyddiad cau y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau. Yn dilyn hynny, bwriadwn benderfynu a ydynt wedi bodloni'r meini prawf yn seiliedig ar dystiolaeth sydd eisoes ar gael.

Lle nad yw corff dyfarnu yn dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ar hyn o bryd, bydd angen dangos i ni y bydd yn gallu bodloni'r meini prawf gan ddefnyddio'r ffynonellau perthnasol o dystiolaeth (gweler enghreifftiau a ddarperir yn y Meini Prawf). Byddwn yn gofyn iddynt gyflwyno'n ffurfiol ffurflen gais wedi'i chwblhau am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG, yn ogystal ag uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol yr hoffent ei gyflwyno ochr yn ochr â'ch ffurflen gais.

Yna byddwn yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gennych yn erbyn ein Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG er mwyn gwneud penderfyniad o fewn 40 di wrnod gwaith fel arfer.

Os byddwn o'r farn eich bod wedi bodloni ein meini prawf, byddwn yn eich cydnabod yn ffurfiol i ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG yng Nghymru.

Os na fyddwch wedi bodloni gofynion ein Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG yn ddigonol, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam nad ydym wedi derbyn eich cais.

Ar ôl ystyried ein hadborth gallwch wneud cais arall.

Gallwch gyflwyno cais am apêl reoliadol yn erbyn ein penderfyniad, yn unol â'n [Polisi Apeliadau Rheoliadol](#).